ATODLEN 6

**AMODAU YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I GADW MOCH**

# RHAN II

## AMODAU YCHWANEGOL CYFFREDINOL

### Archwilio

**2.** Rhaid i bob mochyn gael ei archwilio gan berchennog neu geidwad y moch o leiaf unwaith y dydd i sicrhau ei fod mewn cyflwr o lesiant.

**3.** Pan fydd angen, rhaid ynysu moch sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych.

### Tenynnau

**4.** Ni chaiff neb roi tennyn na pheri rhoi tennyn ar unrhyw fochyn ac eithrio pan fydd yn mynd o dan archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at unrhyw ddiben milfeddygol.

**5.**—(1) Pan ganiateir defnyddio tenynnau yn unol â pharagraff 4, rhaid iddynt beidio â pheri anaf i'r moch a rhaid eu harchwilio'n rheolaidd a'i haddasu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn ffitio'n gysurus.

(2) Rhaid i bob tennyn fod o ddigon o hyd i ganiatáu i'r moch symud fel y nodir ym mharagraff 6(2) isod a rhaid i'r dyluniad fod yn gyfryw fel y bydd yn osgoi, cyn belled â phosibl, unrhyw risg o dagu, poen neu anaf.

### Llety

**6.**—(1) Rhaid i bob mochyn fod yn rhydd i droi o amgylch heb anhawster bob amser.

(2) Rhaid i'r llety a ddefnyddir ar gyfer moch gael ei adeiladu yn y fath fodd ag i ganiatáu i bob mochyn —

(a) sefyll, gorwedd a gorffwyso heb anhawster;

(b) cael lle glân y gall orffwyso ynddo; ac

(c) gweld moch eraill, onid yw'r mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol.

**7.**—(1) Rhaid i faintioli unrhyw gôr neu gorlan fod yn gyfryw fel nad yw'r arwynebedd mewnol yn llai na hyd y mochyn wedi'i sgwario, ac nad yw unrhyw ochr fewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn, ac ymhob achos mae hyd y mochyn yn cael ei fesur o flaen ei drwyn hyd at fôn ei gynffon tra bydd yn sefyll gyda'i gefn yn syth.

(2) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â mochyn benyw am y cyfnod rhwng saith diwrnod cyn y dydd disgwyliedig iddi ddod â moch bach a'r dydd y bydd diddyfnu ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll a faethir ganddi), wedi'i gwblhau.

(3) Ni fydd person yn euog o dramgwydd yn unol â rheoliad 13(1) o dorri neu fethu â chydymffurfio â'r paragraff hwn drwy gadw mochyn mewn côr neu gorlan —

(a) tra bydd o dan unrhyw archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at ddibenion milfeddygol;

(b) at ddibenion serfio, cyfebru artiffisial neu gasglu semen;

(c) tra caiff ei fwydo ar unrhyw achlysur arbennig;

(ch) at ddibenion ei farcio, ei olchi neu ei bwyso;

(d) tra bydd ei lety'n cael ei lanhau, neu

(dd) tra bydd yn disgwyl cael ei lwytho ar gyfer ei gludo,

ar yr amod nad yw'r cyfnod pan gedwir y mochyn yn hwy nag y mae ei angen i'r diben hwnnw.

(4) Ni fydd person yn euog o dramgwydd yn unol â rheoliad 13(1) o dorri neu fethu â chydymffurfio â'r paragraff hwn am gadw mochyn mewn côr neu gorlan y gall y mochyn fynd iddo neu ei adael fel y myn, ar yr amod yr eir i'r côr neu'r gorlan o gôr neu gorlan y mae'r mochyn yn cael ei gadw ynddynt heb fynd yn groes i'r paragraff hwn.

### Adeiladau â golau artiffisial

**8.** Pan gedwir moch mewn adeilad â golau artiffisial yna, yn ddarostyngedig i baragraffau 14 ac 16 o Atodlen 1, rhaid darparu golau artiffisial am gyfnod sydd o leiaf yn hafal i'r cyfnod o olau naturiol sydd ar gael fel arfer rhwng 9.00 a.m. a 5.00 p.m.

### Atal ymladd

**9.**—(1) Os cedwir moch gyda'i gilydd, rhaid cymryd mesurau i atal ymladd sy'n mynd y tu hwnt i ymddygiad arferol.

(2) Rhaid i foch sy'n dangos eu bod yn gyson ymosodol tuag at eraill neu'n dioddef ymosodiadau o'r fath gael eu hynysu neu eu cadw ar wahân i'r grŵ p.

### Glanhau a diheintio

**10.**—(1) Rhaid i adeiladau, corlannau, offer a theclynnau a ddefnyddir ar gyfer moch gael eu glanhau a'u diheintio'n gywir i atal trawsheintio ac i atal organeddau sy'n cario clefydau rhag crynhoi.

(2) Rhaid i ddom neu tail, biswail a bwyd sydd heb ei fwyta neu wedi'i golli gael ei symud cyn amled ag y mae angen i leihau'r aroglau ac i osgoi denu pryfed neu gnofilod.

### Man gorwedd

**11.**—(1) Pan gedwir moch mewn adeilad, rhaid eu cadw ar fan gorwedd, neu rhaid iddynt bob amser allu mynd i fan gorwedd, sy'n lân, yn gysurus ac nad yw'n effeithio yn andwyol arnynt ac y mae ganddo naill ai wasarn sych wedi'i gynnal yn dda neu sydd wedi'i draenio'n dda.

(2) Pan ddarperir gwasarn, rhaid iddo fod yn lân, yn sych a heb fod yn niweidiol i'r moch.

### Lloriau

**12.** Pan gedwir moch mewn adeilad, rhaid i'r lloriau fod —

(a) yn llyfn heb fod yn llithrig er mwyn rhwystro anaf i'r moch;

(b) wedi'u dylunio fel na fyddant yn peri anaf na ddioddefaint i'r moch wrth iddynt sefyll neu orwedd arnynt;

(c) yn addas ar gyfer maint a phwysau'r moch; ac

(ch) yn ffurfio arwyneb caled, gwastad a sefydlog.

### Bwydo

**13.**—(1) Rhaid bwydo pob mochyn o leiaf unwaith y dydd.

(2) Pan gedwir grŵ p o foch mewn adeilad heb gyfle di-dor i gael bwyd, neu pan nad oes system fwydo awtomatig yn eu bwydo, rhaid i bob mochyn gael mynd at fwyd ar yr un adeg â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo.

**Dŵ r yfed**

**14.** Rhaid darparu cyflenwad digonol o ddŵ r yfed ffres ar gyfer pob mochyn bob dydd.

**Cyfoethogi'r amgylchedd**

**15.** Yn ychwanegol at y mesurau a gymerir fel arfer i rwystro brathu cynffonau a gwendidau eraill ac er mwyn eu galluogi i fodloni eu hanghenion ymddygiad, rhaid i bob mochyn, gan gymryd i ystyriaeth yr amgylchedd a'r dwysedd stocio, gael y cyfle i fynd at wellt neu ddefnydd neu wrthrych arall sy'n addas i fodloni'r anghenion hynny.

**Gwahardd defnyddio'r system blwch-chwysu**

**16.** Rhaid peidio â chadw moch mewn amgylchedd sy'n golygu cynnal tymheredd uchel a lleithder uchel (a elwir y "system blwch-chwysu").